



## Taflen weithgaredd 1 Crefydd a Hawliau Dynol

Mae hawliau dynol, democratiaeth a rheolaeth y gyfraith yn werthoedd craidd i'r Undeb Ewropeaidd. Maent yn rhan o'i gytundeb sefydlu a'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Mae'n rhaid i wledydd sy'n dymuno ymuno â'r UE barchu hawliau dynol; felly hefyd y gwledydd sy'n gwneud cytundebau masnach a chytundebau eraill ag ef.

Mae'r daflen weithgaredd hon yn edrych ar dri phwnc cyfredol ym maes hawliau dynol a chrefydd: arteithio, y syniad o seciwlaedd, a'r cwestiwn a ddylid derbyn Twrci yn aelod o'r UE.

### Triniaeth annynol?

**Cyfnod Allweddol 4** ABCh, Agwedd Gymunedol - deall materion cyfoes, gan gynnwys hawliau dynol

#### ***Beth mae'r UE yn ei ddweud am arteithio, a beth yw eich barn chi?***

- Yn ôl y *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol* – a lofnodwyd gan bob un o 25 aelod yr UE – “Ni ddylid poenydio neb, na thrin na chosbi neb yn greulon, annynol na'n ddiraddiol”.
- Er 2002, cadwyd carcharorion a ddaliwyd yn Affganistan ym Mae Guantánamo yn Ciwba, a dywed rhai iddynt gael eu harteithio. Mae Senedd Ewrop a chyrrff eraill wedi galw ar Gyngor yr UE i amddiffyn hawliau cyfreithiol y carcharorion hyn.
- Yn 2005, deddfodd arglwyddi'r gyfraith yn y DG ei bod hi'n anghyfreithlon i ddefnyddio tystiolaeth a gafwyd, o bosib, trwy arteithio. Yn yr un flwyddyn, dechreuodd y DG allgludo eithafwyr Islamaidd i wledydd y gwyddom eu bod yn arteithio carcharorion, ar yr amod eu bod yn llofnodi cytundeb 'dim arteithio'.
- Yn 2005, ymchwiliodd swyddogion Ewropeaidd i adroddiadau bod UDA wedi cadw rhai dan amheuaeth o fod yn aelodau o al-Qaeda yn ddirgel mewn 8 gwlad, gan gynnwys Rwmania a Gwlad Pwyl. Cafwyd honiadau hefyd bod yr Asiantaeth Cudd-ymchwil Ganolog (CIA) wedi hedfan rhai dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr o'r UE i wledydd yn y Dwyrain Canol. Roedd hyn yn codi'r posibilrwydd bod aelodau o'r UE wedi cydgynllwynio wrth anfon carcharorion i gael eu harteithio.

#### **Gweithgaredd: Beth sy'n cyfrif fel arteithio?**

Llungopiŵch a thorrwch allan y cardiau sy'n dilyn. Mae pob un yn nodi enghraifft o un math o gosb. Fesul grŵp, trafodwch pa gosbau sydd yn cyfrif fel arteithio, a pha gosbau sy'n dderbyniol yn eich barn chi.

*Noder: gan ddibynnu ar amgylchiadau, gellid ystyried pob un o'r rhain yn artaith yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio.*

Sioc drydan	Carchariad unigol	Diffyg cwsg
Chwarae cerddoriaeth uchel	Mygydu'r llygaid	Gwrthod rhoi bwyd
Tagu	Curo	Cael eich gorfodi i eistedd

#### **Pwyntiau i'w trafod:**

- A oes gan yr UE yr hawl i ddweud wrth wledydd eraill sut i drin carcharorion?
- A ddylai'r UE roi mwy o bwyslais ar gysylltiadau rhyngwladol na hawliau carcharorion unigol?

- A yw hi'n iawn i ddefnyddio arteithio weithiau, e.e. er mwyn rhwystro ymosodiad gan derfysgwyr?
- Pa hawl sydd gan y cyhoedd i wybod am arteithio o'r fath?

## Lle crefydd


Cyfnod Allweddol 4 CBAC, TGAU Astudiaethau Crefyddol B – Hunaniaeth a Pherthyn A2 CBAC, Astudiaethau Crefyddol – Astudiaethau mewn Crefydd a Moeseg

### **Sut mae crefydd yn rhan o Ewrop, a pha ran a ddylai chwarae?**

- Rhaid i wledydd sy'n dymuno ymuno â'r UE ddangos eu bod yn medru darparu ar gyfer hawliau dynol. Mae y *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* yn ogystal â'r *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol* yn galw am "ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd", sy'n golygu y dylai pobl fod yn rhydd i gredu yn unrhyw ffydd a'i harfer.
- Mae rhai o wladwriaethau'r UE yn gwbl 'seciwlar' – sy'n golygu nad oes cysylltiad rhwng y llywodraeth a'r eglwys. Un enghraifft yw Ffrainc; mae ei baner drilliw yn cynrychioli tri delfryd sef rhyddid, cydraddoldeb a brawdgarwch. Pe bai'r eglwys yn medru effeithio ar lywodraeth yna, yn ôl dadl Ffrainc, efallai na wireddid y delfrydau hyn.
- Nid yw pob un o wladwriaethau'r UE yn gwbl seciwlar. Yn yr Almaen, mae'r llywodraeth yn hel trethi ar gyfer cyrff crefyddol; ac yn y DG mae pennaeth y wladwriaeth (y Frenhines) hefyd yn ben ar Eglwys Loegr. Mae gan Cyprus, Denmarc, Y Ffindir, Gwlad Groeg a Malta oll eglwys 'wladol' – cysylltiad swyddogol rhwng y llywodraeth a chrefydd; yn y DG mae hyn yn wir am Loegr a'r Alban yn unig.
- Yn ddiweddar, bu rhai o wledydd yr UE yn ceisio'n galed i ddatrys mater gwisg Islamaidd, sy'n codi cwestiynau pwysig am gydraddoldeb a goddefgarwch. Yn 2004, cyflwynodd Ffrainc waharddiad ar wisgo pensgarffiau mewn ysgolion: y teimlad oedd nad oedd yna le, mewn cymdeithas seciwlar, i'w symbolaeth grefyddol amlwg.

### **Gweithgaredd: Chwifio'r faner dros grefydd**

Mae baner Ffrainc (dde) yn symbol enwog o gymdeithas seciwlar. Fesul grŵp, trafodwch sut yn eich barn chi y dylai Cymru neu'r DG ymdrin â chrefydd: sut gallwn ni gydbwyso anghenion pobl grefyddol gyda'r syniad o seciwlariaeth?



Cynlluniwch eich baner eich hunain i ddarlunio eich syniadau.

### **Pwyntiau i'w trafod ymhellach:**

- A oes gwahaniaeth a yw gwladwriaeth yn seciwlar ai peidio?
- Pam ddylai'r wladwriaeth ddiogelu credoau crefyddol?
- Ai mater o farn yn unig yw 'eithafiaeth' grefyddol, neu a fedrwn ni gytuno ar ddiffiniad o eithafiaeth?

## **A ddylai Twrci ymuno â'r clwb?**

Gweler y Cyflwyniad ar gyfer Athrawon am gysylltiadau cyffredinol â'r cwricwlwm

### ***Sut byddai'r UE yn newid pe bai Twrci'n ymuno? Fyddem ni'n derbyn y newidiadau hynny?***

- Gwnaeth Twrci gais am aelodaeth lawn o'r UE ym 1987, ar ôl dangos diddordeb ers 28 mlynedd mewn gwneud hynny. Gwrthodwyd y cais ar sail economi wan Twrci a'i gorffennol gwael o ran hawliau dynol.
- Yn ystod y 1990au symudodd Twrci yn nes at yr UE, ac ym 1999 cafodd ei derbyn yn ymgeisydd ar gyfer aelodaeth lawn. Mae gofyn i Dwrci fodloni Meini Prawf Copenhagen – sy'n gwarantu democratiaeth a hawliau dynol, a dangos economi fasnach rydd.
- Mae dadlau ynghylch a yw Twrci fel gwlad yn gymharus â'r UE. Mae rhai yn dwyn sylw at y ffaith bod Twrci yn ddaearyddol yn Asia yn hytrach nag Ewrop, mae eraill yn holi a fyddai gwlad sydd ar y cyfan yn Islamaidd yn gydnaws ag undeb o wledydd sydd, yn ôl traddodiad, yn rhai Cristnogol. Fodd bynnag, mae Twrci yn un o'r ychydig wladwriaethau yn y byd sy'n swyddogol seciwlar, felly byddai caniatáu iddi ymuno â'r UE yn ei galluogi o bosib i fod yn 'glustog' rhwng Ewrop a gwladwriaethau Islamaidd fel Iran.

### **Dadl yn y dosbarth: “Byddai'r Tŷ hwn yn caniatáu i Dwrci i ymuno â'r UE”**

Rhowch amser i'r dosbarth i ymchwilio i'r pwnc; efallai y byddai o ddefnydd iddynt chwlio amdano ar **www.debatbase.org**. Yna rhennwch hwy yn ddau grŵp mawr, un *o blaid* ac un *yn erbyn*, y cynnig. Gan ddefnyddio dalen o siart droi wrth sbarduno syniadau, dylai'r ddau grŵp daro ar y papur bob dadl bosibl sydd o'u plaid. Dylent chwilio am themâu cyffredin yn eu dadleuon, cysylltu'r pwyntiau hyn, ac yna benderfynu ar eu 3 dadl orau. Yna rhennwch bob grŵp yn 3 grŵp llai; dylai pob un o'r rhain ddatblygu un o'r 3 dadl orau. (Neu fel arall, gallech gyfnewid y grwpiau mawr wedi iddynt benderfynu ar eu 3 phwynt, fel bod yn rhaid iddynt ddatblygu'r pwyntiau a ddyfeisiwyd gan eu gwrthwynebwyr.)

Gallwch ddewis eich fformat eich hun ar gyfer y ddadl: am ganllawiau pellach, cysylltwch â CEWC-Cymru.

### **Pwyntiau i'w trafod:**

- Pam, yn eich barn chi, bod rhai yn gwrthwynebu aelodaeth yn yr UE i wlad sydd â 70 miliwn o Fwslemiaid? Sut byddai hyn yn newid yr UE?
- A yw hi o bwys nad yw Twrci mewn gwirionedd 'yn Ewrop'?

---

## ***Ynglŷn â Citaware***

Nod Citaware yw cynyddu ymwybyddiaeth ein bod yn ddinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru, gan alluogi pobl o bob oedran i ymwneud â sefydliadau'r UE. Fe'i noddir gan y Comisiwn Ewropeaidd a'i drefnu ar y cyd gan:



Welsh Centre for International Affairs  
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru



CEWC CYMRU

### **Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol (WCIA)**

Fforwm cenedlaethol i gyfnewid syniadau am faterion rhyngwladol.  
[www.wcia.org.uk](http://www.wcia.org.uk)

### **Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd – Cymru**

Adain ysgolion WCIA.  
[www.cewc-cymru.org.uk](http://www.cewc-cymru.org.uk)

### **EuropaWorld**

Papur newydd ar-lein rhad ac am ddim sy'n trafod datblygu rhyngwladol o safbwynt Ewropeaidd.  
[www.europaworld.org](http://www.europaworld.org)

